



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Rhagfyr 2022

MAE'R Ffordd YR YDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

Dyma beth mae angen i landlordiaid ei wneud...



Trosi tenantiaethau presennol

Gall contractau meddiannu ddechrau ar lafar, ond mae'n rhaid cyflwyno datganiad ysgrifenedig o'r contract i'r holl ddeiliaid contract (mae hyn yn disodli'r cytundeb tenantiaeth neu drwydded presennol).



Bod yn ymwybodol o gyfnodau rhybudd newydd ar gyfer adfeddu

Rhybudd heb fai (contractau safonol cyfnodol yn unig) – o leiaf chwe mis ar gyfer contractau meddiannu newydd, ac ni ellir ei gyflwyno o fewn chwe mis cyntaf y meddiannu.

Toriadau: Dim cyfnod rhybudd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol (gallwch wneud cais i'r llys ar unwaith ar ôl cyflwyno'r rhybudd); 14 diwrnod ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol (ôl-ddyledion o 8 wythnos/2 fis); rhybudd o un mis os bydd toriadau eraill.



Sicrhau bod eiddo yn Ffit i Fod yn Gartref

Gan gynnwys profion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau tân yn gweithio a bod synwryddion carbon monocsid yn cael eu darparu.



Adfeddu eiddo gwag

Heb fod angen gorchymyn llys, ar ôl cyflwyno rhybudd o bedair wythnos



Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract

Heb fod angen diweddu'r contract presennol a dechrau un arall



Gwell hawliau olynw sy'n golygu bod hawl gan ddeiliad contract drosglwyddo ei gartref

(hyd at ddwywaith) i bobl eraill sy'n byw gyda nhw (gan gynnwys priod, plant sy'n oedolion neu ofalwr) os bydd yn marw.



Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb

Ewch i llyw.cymru/rhentucartrefi